CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30yh DYDD LLUN 6ed GORFFENNAF 2026

1. **CROESO** – Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Glena Humphrey, bawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL** – Cynghorwyr Glena Humphrey, Irwedd Griffiths, Hefin Williams, Gwenda Davies, Gwawr Thomas Goronwy R. Williams, John Evans, Tudur Roberts, D Gwyn Jones, Gethin Owen, Cynghorydd Sir Ifor G. Lloyd a'r Clerc Mel Jones.

3. **YMDDIHEURIADAU** – Dim

4. **DATGANIAD O FUDDIANT**
   Atgoffir yr aelodau bod yn rhaid iddynt ddatgan bodolaeth a natur unrhyw fuddiannau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi datgan ei fod yn aelod o'r pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond gall ateb cwestiynau sy'n ymwneud â rheoliadau a pholisïau cynllunio.

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

5. **COFNODION**
   Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mehefin 2026. Cymeradwywyd a llofnodwyd y cofnodion. (Cynigiwyd gan y

Cynghorydd Gwyn Jones ac eilwyd gan y Cynghorydd John Evans)

6. **MATERION YN CODI**
   Mewn perthynas â phen-blwydd cyn Gynghorydd Sir Ena Wynne yn 100 oed ar 29 Gorffennaf 2026, bydd y Clerc yn trefnu cerdyn a thusw o flodau, a fydd yn cael eu danfon at ei mab, John Wynne, cyn ei phen-blwydd. Bydd digwyddiad dathlu yn cael ei gynnal yn Neuadd Gymunedol Llanelian, ar 26 Gorffennaf 2026.

7. **CYLLID**

   Cynhyrchwyd y Datganiadau Ariannol misol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 20fed Mehefin 2026.

   Yn diweddu 20fed Mehefin 2026

   (1) **Cyfrif Cymunedol** = **£7,932.58** (Balans a ddygwyd ymlaen)
   Arian a dderbyniwyd = **DIM**

   Arian a dalwyd:

   £396.00 (Anfoneb Iswrant Zurich)
   £400.00 (Cyflog y Clerc)
   £213.17 (Cyflog y Clerc)
   £351.60 (Anfoneb JDH – Audit lleol))
   £109.33 (Anfoneb BT WiFi)

   CYFANSWM – £1,470.10

   Cyfrif Cymunedol = £6,462.48 (Balans a ddygwyd ymlaen)

   (2) **Cyfrif Busnes** = £4,133.91 (Balans a ddygwyd ymlaen)
   Arian a dalwyd = DIM
   Arian a dderbyniwyd = £13.25 (LLog at 4/6/26)

   Cyfrif Busnes = £4,147.16 (Balans a ddygwyd ymlaen)

   Cyfanswm = **£10,609.64** (Balans a ddygwyd ymlaen)

   Nododd yr aelodau'r sefyllfa ariannol a'r cyfrif banc fel y rhestrwyd uchod.
   Cytunodd pawb fod y cyfrifon yn gywir.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol, mae bellach angen cytundeb y Cyngor cyn talu unrhyw anfonebau ar-lein.

Adroddodd y Clerc fod anfoneb BT o £109.33 wedi ei dderbyn. Cytunwyd y gellid talu'r anfoneb.

Roedd yr anfonebau canlynnol wedi ei derbyn

1. £70.00 – Hilda Gibbs am blannu ac edrych ar ol blodau yn Betws yn Rhos
2. £383.22 – Audit Cymru – Audit lleol.
3. £247.62 – CCBC am osod a tynnu i lawr y goleuadau Nadolig yn Betws yn Rhos
4. Pump anfoneb gan Un Llais Cymru - £44 yr un hefo cyfanswm o £220 – hyfforddiant Cynghorion
5. £68.11 – Aston Hughes – Gwaith cyflogi

Roedd cytundeb i dalu yr holl anfonebau.

8. **GOHEBIAETH**

Derbyniwyd.

1. E-byst rheolaidd gan Un Llais Cymru, Gweithrediaeth y Gwasanaeth Cyhoeddus ac ati, gyda'r rhai perthnasol yn cael eu hanfon ymlaen at y Cynghorwyr ac ar gael gan y Clerc.

Anfonwyd

1. Ymatebion ac ymholiadau i Adran Gynllunio CCBC.
2. Llythyrau ac e-byst a dderbyniwyd i'w hanfon ymlaen at Gynghorwyr.

9. **GRANTIAU**

Ceisiadau i'r Cyngor Cymuned

Llythyr wedi ei dderbyn gan Mrs Sue Pinney hefo cais am grant o £4,000 i atgyweiro wal ffin Eglwys Sant Michael yn Betws yn Rhos. Roedd yn amlwg fod y cais gan cronfa Parc Solar. Mae Cynghorydd Gwyn Jones yn mynd i ddelio hefo'r cais.

Ceisiadau gan y Cyngor Cymuned

Mae CVSC bellach yn cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i ganfod grantiau addas ar gyfer prosiectau amrywiol o fewn y gymuned.

Mae cais grant gan 'Pride in Place' wedi ei yrru. Manylion o dan y Cae Chwaraeon.

10. **CYNLLUNIO**

http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

Cyfeirnodau: 0/52418 a 0/53417 Ymgeisydd: Mr a Mrs Macbeth

Cynnig: Gosod 2 ffenestr newydd ar yr edrychiad de-ddwyreiniol (ochr), creu 2 ystafell wely deuluol newydd gydag ystafelloedd ymolchi en-suite, a gwneud addasiadau mewnol i ddarparu mynediad o'r landin i'r ystafell wely newydd (Caniatâd Adeilad Rhestredig).

Lleoliad: Ffarm Country House, Ffordd Cill Llidiart, Betws yn Rhos, LL22 8AR**.**

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

Y mater a godwyd yn y cyfarfod diwethaf oedd y newid i enw'r busnes o'r enw Cymraeg, Y Ffarm, i FFarm Country House/Ffarm Hall. Roedd y Clerc wedi codi'r mater gyda Benjamin Carr, y Swyddog Cynllunio. Nid yw'r mater yn rhan o'r cais cynllunio, ond byddai Mr Carr yn awgrymu i'r perchnogion ddefnyddio arwyddion dwyieithog.

Bydd y Cynghorydd Ifor Lloyd yn cysylltu â Nia Clwyd, Menter Iaith, a fyddai'n gallu cynorthwyo'r busnes o ran defnyddio'r Gymraeg.

Cyfeirnod: 0/53261 Ymgeisydd: Mr Elgan Jones

Cynnig: Lagŵn slyri newydd arfaethedig

Lleoliad: Bryn Dansi, Ffordd Bryn Dansi, Dolwen, Betws yn Rhos, LL22 8NS

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

Cyfeirnod: 0/53039 Ymgeisydd: Ms R Jones

Cynnig: Trosi adeiladau allanol fferm segur yn llety preswyl gan gynnwys estyniadau i'r adeilad.

Lleoliad: Nant Ucha, Ffordd Nentydd, Rhyd y Foel, Betws yn Rhos, LL22 8EF

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

Cyfeirnod: 0/52910 Ymgeisydd: Mr Sean McBride

Cynnig: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45158 (Datblygu tir gyferbyn â Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, ar gyfer tai preswyl – Cam 2).

Lleoliad: Tir ar Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UP

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

Cyfeirnod: 0/52909 Ymgeisydd: Mr Sean McBride

Cynnig: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â chaniatâd cynllunio amlinellol 0/42351 – Datblygu tir gyferbyn â Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, ar gyfer tai preswyl – Cam 1).

Lleoliad: Tir ar Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UP

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

APÊL GWRTHOD CYNLLUNIO

Cyfeiriad y Safle: Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UU

Disgrifiad o'r Datblygiad: Newid defnydd tir ar gyfer storio carafannau gyda thirlunio cysylltiedig

Cyfeirnod y Cais: 0/52387

Enw'r Apelydd: BR Storage

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio. Mae'r gwrandawiad apêl tridiau wedi'i drefnu ar gyfer 9–12 Mehefin 2026. Dim diweddariad ar wefan Adran Cynllunio y Cyngor.

11. **MATERION ARCHWILIO MEWNOL AC ALLANOL**

    Roedd y Clerc wedi anfon y dogfennau canlynol at Archwilio Cymru er mwyn cwblhau'r archwiliad:

    1. Gwybodaeth Archwiliad Sylfaenol.
    2. Y Ffurflen Flynyddol, y Datganiad Llywodraethu a'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.
    3. Adroddiad yr Archwiliad Mewnol dyddiedig 14/5/2026, gyda sylwadau wedi'u diweddaru.
    4. Cynllun Archwilio Mewnol.
    5. Mantolen a chysoniad banc.
    6. Adroddiad Blynyddol.

7. Cyfriflenni Banc HSBC.

Roedd yr holl hyfforddiant a ofynnwyd amdano ar gyfer y Cynghorwyr Glena Humphrey, Gwawr Thomas a Gethin Owen wedi'i gwblhau, a derbyniwyd yr anfonebau perthnasol.

Un o'r materion a drafodwyd yn ystod yr hyfforddiant oedd y defnydd o gyfeiriadau e-bost personol. Cytunwyd, os bydd angen i Gynghorwyr ddarparu cyfeiriad e-bost, y dylent ddefnyddio cyfeiriad e-bost cyffredinol y Clerc: clerc@betwsallanelian.org.uk

12. **MATERION CYNGOR SIR CONWY - Y CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

Diweddarodd Cynghorydd Lloyd y cyfarfod ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn cychwyn yn ystod y misoedd nesaf mewn perthynas â chais gan Gymdeithas Chwaraeon Betws yn Rhos am Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn mewn perthynas â'r maes hamdden ym Metws yn Rhos.

Ar gais y Cynghorydd Lloyd, roedd y Clerc wedi codi ymholiad gyda'r Adran Priffyrdd ynghylch ble yn union y mae'r gwaith ar y B5381 yn dechrau, gan fod y ffordd yn un hir. Roedd yr Adran Priffyrdd wedi darparu map, a rannwyd gyda'r Cynghorwyr. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau.

13. **CYNHALIAETH ADNODDAU O FEWN ARDAL Y CYNGOR CYMUNED**

a. **Maes Chwarae Betws yn Rhos/Llanelian**

Diweddarodd y Clerc fod y cais grant am £25,000, a gyflwynwyd i'r Gronfa Balchder Bro wedi ei gymeradwyo. Bydd y dogfennau angenrheidiol yn cael eu hanfon ymlaen at y Clerc.

Bydd y cais i Gronfa Gymunedol y Parc Solar am £24,921.97 bellach yn cael ei ddyfarnu.

Bydd y grantiau hyn yn talu cost lawn yr offer newydd a'r gwaith o adnewyddu'r offer presennol yn y Maes Chwarae. Roedd y Clerc wedi bod mewn cysylltiad â David Dudley, Arolygydd Meysydd Chwarae CBSC, a bydd yn cynorthwyo gyda'r prosiect wrth iddo symud ymlaen. Fodd bynnag, nododd fod nifer o brosiectau tebyg hefyd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd.

b. **Diffibrilwyr**

Y Clerc wedi profi pob diffibriliwr ar 14fed Mehefin 2026, ac roedd pob un mewn cyflwr da ac yn barod i'w defnyddio.

Roedd y padiau ym mhob un o'r pum diffibriliwr, a ddaeth i ben ar 15fed Mehefin 2026, wedi ei newid. Bydd y padiau newydd yn dod i ben ar 4ydd Ebrill 2028.

Gofynnodd y Cynghorydd Gwenda Davies i sticeri gwybodaeth newydd gael eu darparu ar gyfer y cypyrddau diffibrilwyr ym mhentref Betws, gan fod y rhai presennol wedi pylu. Y Clerc yn mynd i edrych am rhai newydd.

c. **‘Yr Hwb’**

Mae gwirfoddolwyr yn dal i fod eu hangen i oruchwylio’r sesiynau a gynhelir rhwng 9:00yb a 12:00yp bob bore Mawrth ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos.

d. **Gwelyau blodau**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu planhigion newydd. Mae nifer o sylwadau cadarnhaol wedi ei derbyn gan drigolion y pentref.

e. **Cyfleuster Toiledau yn Llanelian**

Diweddarodd y Clerc fod Lanyon Bowdler, Cyfreithwyr, yng Nghonwy, yn parhau i wneud cynnydd gyda'r brydles gyda

Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd Gemma Wynne (Cyfreithwraig) wedi gofyn i Gyngor Conwy gwblhau'r broses cyn diwedd mis Mehefin. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael unrhyw ymateb gan CBSC, a bydd yn parhau i gysylltu hefo nhw i geisio cael diweddariad a symud y mater ymlaen.

Mae'r manylion wedi ei rhannu gyda Zurich Insurance, ac mae'n debygol y bydd y dyfynbris gwreiddiol o £613.90 (sy'n cynnwys yswiriant blynyddol arferol y Cyngor) yn cynyddu. Unwaith y bydd y brydles wedi'i chwblhau, bydd y Clerc yn cael dyfynbris arall er mwyn cymharu'r costau.

f. **Materion Cyffredinol**

Tir yn Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Maes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio offer peiriannau. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau.

Mae'r Clerc wedi cysylltu â Mel Elham i ddarparu dyfynbris ar gyfer ail-baentio'r ddau giosg ym Metws yn Rhos a Dolwen. Manylion yn aros.

Mae'r Clerc wedi hysbysu ERF yng Nghyngor Sir Conwy bod angen i'r Cyngor Sir asesu'r arwyddion yn y lleoliad ac y dylid ystyried arwydd 'ARAF' cyn y tro ar Ffordd Galch, Llanelian lle mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd. Dim diweddariad gan ERF.

Mewn perthynas â'r hysbysfwrdd ger y siop yn Betws yn Rhos a gafodd ei ddifrodi, bydd y Cynghorydd John Evans yn symud ymlaen gyda'r gwaith atgyweirio ac yn cael persbecs newydd.

Roedd y Clerc wedi cael pris ar gyfer mainc newydd yn y maes chwarae. Cost mainc ddyletswydd trwm wedi'i gwneud o blastig wedi'i ailgylchu yw £385.00 ynghyd â TAW. Mae y Clerc wedi derbyn prisau eraill sydd rhwng £385 a £800. Roedd cytundeb na fedrith y mater gael ei symud ymalen ar hyn o bryd.

Mae y Clerc wedi cael diweddaru ERF am problemau ar y ffyrdd canlynol,

Mae'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain o Tan y Wal, Dolwen, i Dawn, heibio Fron Uchaf, yn mynd yn dagfeydd wrth i gerbydau

mawr geisio teithio ar hyd y ffordd. Gofynnwyd i asesiad gael ei gynnal i ystyried gosod arwydd “Anaddas i Gerbydau Trwm” ger Tan y Wal.

Derbyniwyd diweddariad gan CBSC eu bod yn asesu'r mater.

Mae nifer o dai ar hyd Ffordd Abergele, Betws yn Rhos, yn ardal cod post LL22 8AF, wedi gosod conau a/neu ffensys cadwyn wrth fynedfeydd eu dreifiau, gan achosi rhwystr ar y ffordd gan fod yr holl fannau pasio ar gyfer cerbydau wedi'u rhwystro.

Derbyniwyd diweddariad gan CBSC fod y mater hwn y tu allan i gyfrifoldeb y Cyngor gan fod y tir yn eiddo preifat.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio, gan y credwyd bod rhan o'r ceisiadau cynllunio ar gyfer yr anheddau yn nodi bod yn rhaid darparu mannau pasio o fewn y dreifiau.

Roedd y Clerc wedi rhoi gwybodaeth i ERF am y materion canlynol:

1. Addasrwydd Groes Road, sy'n arwain o Hen Golwyn i Lanelian, ar gyfer cerbydau hir a thrwm. Bu sawl digwyddiad lle mae cerbydau o'r fath wedi mynd yn sownd ger Fron Farm. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl asesu'r ffordd er mwyn penderfynu a ellid gosod arwyddion yn nodi ei bod yn “Anaddas i Gerbydau Hir/Trwm”.

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad hyd yma.

2. Mae cangen fawr o goeden yn hongian yn beryglus dros y ffordd ddiddosbarth rhwng Plas yn Betws, Betws yn Rhos, LL22 8AU, a Phen y Geulan, Betws yn Rhos. Mae'r gangen yn tyfu o ochr Plas yn Betws i'r ffordd.

   Derbyniwyd diweddariad nad oedd hwn yn fater i CBSC, ond yn hytrach yn fater i berchennog y tir.

   Awgrymodd y Cynghorydd Ifor Lloyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Swyddog Coed CBSC i ganfod a oedd modd cymryd unrhyw gamau pellach mewn gwirionedd.

Codwyd y materion canlynol hefyd:

Nid oes arwyddion bellach i ddynodi pentref Dolwen ar y ffordd ger y fynedfa i Heronwater ar y B5381, cyn y bont dros yr afon, nac ar y B5381 ger y Felin wrth ddod i lawr y bryn i'r pentrefan. Gofynnwyd iddynt gael eu ailosod.

Mae ceuffos a thwll yn y ffordd ar y B5381 ger y gyffordd ar gyfer Parc Carafanau Hunters Hamlet, a allai achosi difrod i gerbydau.

Mae ffos wedi'i hatgyweirio'n wael ar y B5381 wrth y groesffordd a elwir yn gyffredin yn Groesffordd Garnedd. Credir y gallai'r gwaith fod wedi'i wneud gan Dŵr Cymru, ac ystyrir bod yr atgyweiriad i'r briffordd yn anfoddhaol.

Bydd y Clerc yn codi'r materion uchod gydag ERF.

14. **CYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Roedd y cais praesept am £22,000 gyda £2,558.25 yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Conwy. Taliad o £7,334.00 wedi cael ei wneud ar 17 Ebrill 2026 ac yna dau daliad arall ar 14 Awst 2026 ac 11 Rhagfyr 2026.

15. **FFERMYDD GWYNT AR Y TIR AC AR Y MÔR – AWEL Y MÔR/GWYNT Y MÔR/MONA**

Overview

About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps

Our work so far Interactions with other marine users

Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map

Mae’r pwnc hwn yn parhau ar yr agenda ac mae unrhyw ddatblygiadau yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod. Bydd unrhyw gynlluniau neu geisiadau pellach yn cael eu monitro’n agos. Mae datblygiad Awel y Môr yn mynd rhagddo.

Nid oes diweddariad ffurfiol ynghylch y cynnig ar gyfer tyrbinau gwynt a pharc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y mater yn cael ei fonitro.

16. **Y GADLAS**

Adroddodd y Clerc fod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno erthyglau ar gyfer y rhifyn diweddaraf wedi'i fethu. Fodd bynnag, gellid cynnwys cyfarchiad pen-blwydd i Mrs Ena Wynne gan y Cyngor Cymuned yn y rhifyn nesaf. Cost y cyfarchiad oedd £5, a chytunwyd y dylai'r Clerc fwrw ymlaen â gosod y cyfarchiad yn y papur newydd.

17. **UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, caewyd y cyfarfod am 9.05yh.

CADEIRYDD …… Glena Humphrey

CLERC …… Mel Jones

DYDDIAD: 7fed Medi 2026